Pwyllgor Cronfa Datblygu Cynaliadwy

25 Ionawr 2023

Yn bresennol: Cynghorydd M James (Cadeirydd)
Cynghorydd S Alderman, Cynghorydd S Hancock, Dr M Havard, Dr R Plummer a'r Cynghorydd Mrs S Skyrme-Blackhall.

(Cyfarfod Rhithiol: 10.00yb – 12.00yp)

1. Ymddiheuriadau am Absenoldeb
Nid oedd unrhyw ymddiheuriad am absenoldeb.

4. Datgan Buddiannau
Gwnaeth Dr R Plummer ddatganiad cyffredinol (personol) ynghylch ei haelodaeth o Fwrdd Cyfoeth Naturiol Cymru ac fel ymddiriedolwr Plantlife. Datgelodd y Cynghorydd S Alderman fuddiant personol mewn nifer o'r ceisiadau Gwyrddu Amaethyddiaeth, a buddiant rhagfarnus yn GA22/REEF a GA22/COURT. Gadawodd y cyfarfod tra bod y ddau gais hyn yn cael eu hystyried. Hefyd datgelodd y Cyfarwyddwr Creu Lleoedd, Datgarboneiddio ac Ymgysylltu fuddiant personol yng nghais GA22/TED a gadawodd y cyfarfod.

5. Cofnodion
Cyflwynwyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 5 Hydref 2022 i'w cadarnhau a'u dilysu.

PENDERFYNWYD cadarnhau a dilysu cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 5 Hydref 2022.

6. Cronfa Datblygu Cynaliadwy
Roedd adroddiad y Rheolwr Cyllid Allanol yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am y prosiectau y dyfarnwyd cyllid y Gronfa Datblygu Cynaliadwy iddynt yn flaenorol ac yr oedd ymrwymiad ariannol cyfredol ar eu cyfer. Roedd adroddiad diwedd prosiect gan Awel Aman Tawe hefyd wedi'i ddosbarthu.

Gofynnwyd i'r Pwyllgor gymeradwyo cais am gyllid ychwanegol mewn perthynas â SDF/032022/1 Cwmni Buddiant Cymunedol Siop Lawrenni yr oedd grant SDF o £6,100 ar gyfer paneli solar wedi'i gymeradwyo yn y cyfarfod fis Mawrth 2022. Roedd archwiliad pellach wedi clustnodi'r angen am welliannau i strwythur y to oedd wedi golygu bod rhaid gohirio'r gwaith o osod y paneli, ac o ganlyniad roedd y gost wedi cynyddu. Roedd cais wedi'i wneud i ychwanegu £1,487 at y grant SDF i gyfanswm o

£7,587, sef 80% o gost y dyfynbris wedi'i ddiweddaru o £9,484 i osod y paneli solar.

Penderfynwyd cymeradwyo'r cynnydd yn y grant.

Dywedodd y Rheolwr Cyllid Allanol bod cyfanswm o £100,000 ar gael i'r Awdurdod Parc Cenedlaethol ei ddosbarthu yn y cyfnod 2022/23, a £100,000 ychwanegol o gronfa Tirweddau Cynaliadwy Lleoedd Cynaliadwy Llywodraeth Cymru, gan olygu bod cyfanswm y grantiau ar gael yn y flwyddyn 2022/23 yn £200,000. Cyfanswm y grantiau oedd wedi'u cymeradwyo yn ystod y flwyddyn ariannol hon oedd £190,456.

Dywedodd bod 6 cais newydd wedi dod i law yn y flwyddyn ariannol hon, ond gan fod y rhan fwyaf o'r cyllid wedi'i ddyrannu, byddai'r ceisiadau hynny yn cael eu hystyried yn y flwyddyn ariannol nesaf yng nghyfarfod mis Ebrill. Roedd ymgeiswyr wedi cael gwybod am hyn.

Dywedodd un Aelod bod nifer o brosiectau y talwyd symiau mawr o arian iddynt, ond nad oeddent wedi'u cwblhau eto. Gofynnodd a oedd cadw 10% yn ôl wedi'i ystyried. Atebodd y swyddog mai'r arferiad oedd gwneud taliadau fel ôl-daliadau, ond oherwydd y nifer o grwpiau cymunedol oedd bellach yn derbyn cyllid, cafwyd trafodaeth gyda'r Rheolwr Cyllid, ac erbyn hyn gwneir taliadau ymlaen llaw. Rhoddodd sicrwydd i'r Pwyllgor ei bod yn parhau i fod mewn cysylltiad rheolaidd â'r prosiectau a'i bod yn derbyn adroddiadau manwl rheolaidd, gan gyfeirio'n benodol at SDF/2019/3 Argraffu Cynaliadwy, gan fod y prosiect hwn wedi cael nifer o broblemau, ond roedd disgwyl i'r prosiect gael ei gwblhau fis Ebrill 2023. Ychwanegodd bod proffil hawlio yn ofynnol ar gyfer prosiectau mawr a chymhleth, fel nad oedd yr holl grant yn cael ei dalu ymlaen llaw, a chytunodd i gael gair pellach gyda'r Rheolwr Cyllid ynghylch taliadau fesul cam ac i roi diweddariad i'r Pwyllgor ar y mater hwn.

Nodwyd.

7. Prosiect Peilot Gwyrddu Amaethyddiaeth

Roedd adroddiad y Swyddog Cyswllt Cadwraeth Fferm yn nodi cefndir y cynllun ac yn rhestru'r prosiectau a gymeradwywyd yng Ngham 1 o'r prosiect peilot. Aeth rhagddo i egluro bod cyllid pellach wedi'i sicrhau dros y 3 blynedd nesaf o Grant Tirweddau Cynaliadwy Lleoedd Cynaliadwy Llywodraeth Cymru i ddatblygu'r cynllun peilot Gwyrddu Amaethyddiaeth gyda'r nod o ddatgarboneiddio pellach o fewn y sector amaethyddol drwy leihau allyriadau a dal a storio carbon, gyda £50,000 o gyllid ar gael ar gyfer 2022/23. Roedd yr adroddiad yn rhestru'r ceisiadau hynny oedd

wedi cyflwyno datganiadau o ddiddordeb, ynghyd â'r matrics sgorio a ddefnyddiwyd i bennu blaenoriaeth.

Atgoffwyd yr Aelodau bod Cylch Gorchwyl y Pwyllgor Cronfa Datblygu Cynaliadwy wedi'i newid yng nghyfarfod yr Awdurdod Parc Cenedlaethol fis Hydref 2022 i gynnwys gwneud penderfyniadau ar y cynllun peilot Gwyrddu Amaethyddiaeth, er mwyn sicrhau llywodraethu da a thryloywder. Roedd y ceisiadau ariannu hynny oedd â'r flaenoriaeth uchaf felly gerbron y Pwyllgor i'w hystyried.

Roedd yr Aelodau yn falch o weld prosiect oedd yn ymgysylltu â ffermwyr llaeth, fel sector pwysig sy'n cael effaith sylweddol ar y sir. Roeddent o'r farn bod y dull o ddyrannu grantiau wedi'i strwythuro'n dda, ac roeddent yn falch o'r math a maint y prosiectau oedd ger eu bron i'w hystyried. Gofynnwyd a oedd unrhyw gydberthynas rhwng maint y fferm a'i defnydd o ynni, fodd bynnag atebodd y swyddog nad oedd yn ymddangos bod hynny'n wir, a bod angen ystyried ceisiadau fesul achos. Eu gobaith oedd gallu ymweld â'r prosiectau llwyddiannus, a chytunodd y swyddogion y byddai hynny yn fuddiol ac y byddent yn gwneud y trefniadau angenrheidiol.

Nodwyd.

9. Eithrio'r cyhoedd

Nodwyd y gellid rhannu gwybodaeth oedd yn bersonol neu'n fasnachol sensitif wrth drafod y ceisiadau, ac felly gofynnwyd am eithrio'r cyhoedd o'r cyfarfod.

Penderfynwyd eithrio'r cyhoedd o'r cyfarfod gan y byddai gwybodaeth eithriedig, fel y'i diffinnir ym Mharagraffau 12 ac 14 o Ran 4 o Atodlen 12A i'r Ddeddf Llywodraeth Leol, yn cael ei datgelu**.**

10. Ceisiadau Gwyrddu Amaethyddiaeth i'w Hystyried

Cyn ystyried y ceisiadau, rhoddodd y swyddog amlinelliad o'r gwahanol dechnolegau y ceisiwyd cyllid ar eu cyfer yn ogystal ag egluro'r matrics sgorio fel y gallai'r Pwyllgor ddeall yn well yr argymhellion a wnaed. Eglurodd hefyd bod cyfradd ymyrraeth o 70% wedi'i hargymell ar gyfer prosiectau yr amcangyfrifir eu cost yn fwy na £20,000, tra ar gyfer prosiectau o dan £20,000 yr argymhelliad oedd dyfarnu 75% o'r costau.

Roedd yr Aelodau yn hapus i'r cyfraddau ymyrraeth hyn gael eu defnyddio wrth symud ymlaen, a **phenderfynwyd** ar gyfer prosiectau yr amcangyfrifir eu costau yn fwy na £20,000, y dylid ariannu 70% o'r costau, gyda'r gyfradd yn 75% o gostau prosiectau o dan £20,000.

Bu'r Aelodau hefyd yn ystyried ffyrdd o fireinio'r prosiect ar gyfer y blynyddoedd i ddod, a nodwyd eu barn.

[Bu'n rhaid i'r Cynghorydd M James adael y cyfarfod adeg ystyried GA22/CAERFAI, a chymerodd y Dirprwy Gadeirydd, Dr M Havard, y Gadair ar gyfer yr eitem hon. Ataliodd y Cynghorydd James rhag pleidleisio ar y cais hwn.]

Roedd yr adroddiad oedd gerbron y Pwyllgor yn amlinellu 4 cais a wnaed i'r gronfa. Roedd y 4 hyn wedi cael y sgorau uchaf yn erbyn y matrics blaenoriaeth. Roedd y matrics wedi'i ddatblygu fel bod y prosiectau yn cael eu hasesu yn wrthrychol, a nododd y Swyddog Cadwraeth Fferm, er ei fod yn gwybod am y ffermydd, mai ychydig o gysylltiad personol a gafodd â'r ymgeiswyr.

Cyfeiriad	**Fferm**	**Disgrifiad**	**Sgôr (20)**	**Amcangyfrif o Gost y Prosiect**
GA22/REEF	Fferm Broadmoor Isaf, Talbenni	System Oeri Adfer Gwres a Phaneli Rheoli Digidol ar gyfer y tanc Dŵr	16	£13,400
GA22/CAERFAI	Fferm Caer-fai, Tyddewi	Storio Batri 50kwh	15	£30,000
GA22/PENDDU	Penrallt Ddu, Pont-faen	Pwmp gwactod, plât oeri banc dwbl, system Adfer Gwres	15	£22,441
GA22/COURT	Court Farm, Castellmartin	System adfer gwres, Pwmp Gwactod Cyflymder Amrywiol, 20kwh	14	£39,000

Ystyriwyd pob cais yn fanwl yn erbyn y templed sgorio ac yn dilyn trafodaethau, **penderfynwyd** caniatáu cyllid i'r ceisiadau canlynol, yn amodol ar amodau arferol y grant:

	Cyfeiriad	**Fferm**	**Cyllid a Ddyfarnwyd**
a)	GA22/REEF	Fferm Broadmoor Isaf, Talbenni	Cynnig grant o £10,050 (75% o'r costau).
b)	GA22/CAERFAI	Fferm Caer-fai, Tyddewi	Caniatáu 70% o gyfanswm y costau a amcangyfrifir unwaith y cyflwynir dyfynbris dilys. Cyfanswm wedi'i gapio ar £21,000.
c)	GA22/PENDDU	Penrallt Ddu, Pont-faen	Caniatáu 70% o gyfanswm y costau a amcangyfrifir. Cyfanswm o £15,709.

d)	GA22/COURT	Court Farm, Castellmartin	Oherwydd cyllid cyfyngedig, penderfynwyd cynnig grant o £6,750 (sef 75% o £9,000) i gyflawni un o'r tri opsiwn a amlinellwyd yn yr adroddiad.